YSTADEGAU

# Ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Ionawr i Mawrth 2021

Y datganiad ystadegol chwarterol a blynyddol ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi a gyhoeddir gan Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r data'n cynnwys y pwysau a'r dreth sy'n ddyledus ar wastraff sy'n cael ei waredu i safleoedd tirlenwi.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Mai 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 20 Mai 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Prif bwyntiau

Ynglŷn â’r ystadegau yma

Dulliau a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn

Dadansoddiad

Dolenni i’r tudalennau gwybodaeth allweddol am ansawdd a rhestr termau

Adborth a manylion cyswllt

# Prif bwyntiau

O ran gwastraff a waredwyd i safleoedd tirlenwi yn y cyfnod Ebrill 2020 i Fawrth 2021:

- bu 980 mil tunnell o waredIadau awdurdodedig. Mae hyn yn cynnydd o 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O fewn y cyfanswm hwn, cafodd gostyngiad mewn gwarediadau cyfradd safonol ei wrthbwyso gan gynnydd mewn gwaradediadau cyfradd is

- yr oedd y gwarediadau hyn yn golygu bod £31.7 miliwn o dreth yn ddyledus. Mae’n lleihad oddeutu 14% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'n debygol bod cyfyngiadau coronafeirws (COVID-19) wedi arwain at symud rhai gwarediadau gwastraff, a fyddai wedi digwydd yn gynharach yn y flwyddyn ariannol, fel eu bod wedi digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol

- roedd y pum gweithredwr safle tirlenwi oedd yn talu’r swm mwyaf o dreth yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cyfrif 84% yr holl dreth yn ddyledus


O ran gwastraff a waredwyd i safleoedd tirlenwi yn y cyfnod Ionawr i Fawrth 2021:

- bu 226 mil tunnell o warediadau awdurdodedig. Mae hyn yn lleihad o 2% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2020
- roedd y gwarediadau hyn yn golygu bod £7.2 miliwn o dreth yn ddyledus. Mae'n lleihad 12% ers yr un cyfnod yn 2020
- efallai bod tystiolaeth o batrwm tymhorol yn y data. Mae dyddiau byrrach misoedd y gaeaf yn ffactor o bosib. Fodd bynnag, mae'r patrwm hwn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan effaith coronafirws yn 2020-21
- roedd y pum gweithredwr safle tirlenwi oedd yn talu'r swm mwyaf o dreth yn cyfrif 85% yr holl dreth yn ddyledus
- mae 17 o weithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn cwmpasu 21 safle

**Gellir cael mwy o wybodaeth am y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn ar wefan Awdurdod Cyllid Cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 1a: Pwysau ar wastraff a waredwyd i safleoedd tirlenwi, yn ôl chwarter





[1] Mae hyn yn cynnwys pwysau dŵr a dynnwyd o wastraff a waredwyd, ar gyfradd sero, a phwysau'r holl wastraff sy'n destun unrhyw ryddhad Treth Gwarediadau Tirlenwi.

(p) Mae'r gwerthoedd yn rhai dros dro a byddant yn cael eu diwygio mewn cyhoeddiad yn y dyfodol.

(r) Mae'r gwerthoedd wedi cael eu diwygio yn y cyhoeddiad hwn.

## Siart 1b: Treth yn ddyledus ar wastraff a waredwyd i safleoedd




(p) Mae'r gwerthoedd yn rhai dros dro a byddant yn cael eu diwygio mewn cyhoeddiad yn y dyfodol.

(r) Mae'r gwerthoedd wedi cael eu diwygio yn y cyhoeddiad hwn.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynglŷn â’r ystadegau yma

## Cyflwyniad o Dreth Gwarediadau Tirlenwi

O fis Ebrill 2018, mae Treth Gwarediadau Tirlenwi yn newid y Dreth Tirlenwi yng Nghymru. Rydym, Awdurdod Cyllid Cymru, yn casglu a rheoli’r Treth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r dreth wedi'i llunio a'i gwneud yng Nghymru a bydd y refeniw a gesglir yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Fel Treth Tirlenwi, mae Treth Gwarediadau Tirlenwi yn dreth ar waredu gwastraff i dirlenwi a chodir y dreth yn ôl pwysau. Mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn talu’r treth a maent yn trosglwyddo’r costau hyn i weithredwyr gwastraff eraill drwy eu ffi glwyd.

Diben y dreth yw:

- lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi
- annog dulliau llai niweidiol o reoli gwastraff fel ailgylchu a llosgi

## Gwerth ystadegau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae ystadegau Treth Gwarediadau Tirlenwi’n ffynhonnell ddata werthfawr ar lefel y gwastraff sy'n cael ei dirlenwi.

Rhagweld refeniw’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer Cymru yn y dyfodol yw defnydd pwysig o ystadegau’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yw. Yn bennaf, mae Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn gwneud hyn.

## Data ar gael dros Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae'r holl ddata a ddefnyddir yn y datganiad ystadegol hwn ar gael mewn taenlen ar y **dudalen ystadegau cryno**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae ddata ar gael hefyd ar **wefan StatsCymru**.

## Tudalennau gwybodaeth allweddol am ansawdd a rhestr termau

Gwelwch y datganiad ystadegol hwn dylai defnyddwyr gyfeirio at y tudalennau **rhestr termau** a'r **gwybodaeth allweddol am ansawdd** a gyhoeddir ar wahân:

- rydym yn diffinio termau perthnasol yn y **rhestr termau** fel y'u defnyddir yn y datganiad
- mae ein **tudalen gwybodaeth allweddol am ansawdd** yn disgrifio sut mae ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn bodloni'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ynghyd â dimensiynau gwerth, dibynadwyedd ac ansawdd

## Diwygiadau i ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae'r amcangyfrifon chwarterol yn y datganiad hwn yn seiliedig ar y **cyfnod cyfrifyddu** o dri mis diweddaraf ar gyfer pob gweithredwr safle tirlenwi. Gall pob ffurflen Treth Gwarediadau Tirlenwi yn dilysu fel rhan o waith lliniaru ac adfer a wneir fel mater o drefn gan Awdurdod Cyllid Cymru ac a all, o'r herwydd, gael ei ddiwygio yn y dyfodol.

Yn yr adran ganlynol, rydym yn disgrifio y dulliau yr ydym yn defnyddio i ganfod yr ystadegau o'r data a ddarparwyd yn y ffurflenni.

# Dulliau a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn

## Cyfnodau cyfrifyddu


Mae gan y rhan fwyaf o weithredwyr safleoedd tirlenwi yn adrodd i Awdurdod Cyllid Cymru yn defnyddio cyfnodau cyfrifyddu safonol. Mae'r rhain yn cyd-fynd â diwedd ein chwarteri adrodd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae nifer fach o weithredwyr safleoedd tirlenwi yn defnyddio dyddiadau dechrau a gorffen gwahanol ar gyfer adrodd i Awdurdod Cyllid Cymru. Rydym yn egluro yma sut yr ydym yn ymdrîn â'r mater hwn wrth gynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer y chwarteri adrodd cyfredol a blaenorol.

Yn yr eisampl yn ddangos yr isod:

- Mae gan Weithredwr 1 gyfnod cyfrifyddu safonol
- Mae Gweithredwr 2 wedi cytuno ar gyfnod cyfrifyddu gwahanol gydag Awdurdod Cyllid Cymru. Mae amser cychwyn a gorffen yn wahanol i'n chwarteri adrodd yn ôl safonol




A + B: Defnyddir dwy ran o dair o'r ffurflen flaenorol ac un ran o dair o'r ffurflen ddiweddaraf i roi amcangyfrifon ar gyfer y chwarter blaenorol.

C: Caiff cyfran y ffurflen sy'n rhoi sylw i'r cyfnod diweddaraf ei chodi i roi amcangyfrifon ar gyfer y chwarter cyfredol. Mae'r codi'n digwydd ar sail pro rata o ran nifer y dyddiau yn y chwarter presennol sy'n berthnasol i'r ffurflen.

## Rhyddhad a disgowntiau

Pan gyfeirir at wastraff gan nodi ei fod wedi derbyn **rhyddhad**, mae gweithredwyr y safleoedd tirlenwi yn gofnodi'n wreiddol hyn fel gwastraff lefel is yna'i dynnu i ffwrdd mewn rhan ddilynol o'r ffurflen. Mae'r datganiad hwn yn adrodd ar y gwastraff sy'n cael rhyddhad o fewn y categori rhyddhad neu


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddisgownt ond nid yn rhan o'r categori cyfradd is. Hefyd, mae pwysau unrhyw wastraff y rhoddwyd disgownt mewn perthynas ag ef oherwydd **disgownt dŵr** wedi'i gynnwys yn y categori rhyddhad neu ddisgownt yn unig.

## Gwarediadau heb awdurdod

Does dim data ar gael eto ar **warediadau heb awdurdod**. Byddwn yn cadw'r hyn dan adolygiad. Pan fydd gennym ddigon o ddata, byddwn yn darparu mwy o fanylion am ein dull o gyhoeddi gwybodaeth am warediadau heb awdurdod.

## Ansolfedd cwsmer

Mae'r system Treth Gwarediadau Tirlenwi yn caniatáu rhoi credyd yn erbyn y dreth sy'n ddyledus ar gyfer ansolfedd cwsmer. Mae hyn pan fydd cwsmer gweithredwr safle tirlenwi wedi mynd allan o fusnes ac yn methu â thalu'r gweithredwr am y gwastraff a gafodd ei waredu i dirlenwi.

Yn flaenorol, cafodd swm bychan iawn o gredyd ei hawlio gan un gweithredwr yn ystod chwarter adrodd Gorffennaf i Fedi 2018. Fodd bynnag, gwrthododd Awdurdod Cyllid Cymru y cais hwn ac roedd treth yn ddyledus ar y swm hwn.

Cafodd swm bach o gredyd ei hawlio gan un gweithredwr ar gyfer y chwarter adrodd Gorffennaf i Fedi 2019. Cymeradwyodd Awdurdod Cyllid Cymru yr hawliad. Yn y datganiad ystadegol hwn, rydym wedi tynnu y swm wedi'I hawlio o gyfanswm y dreth sy'n ddyledus.

## Gwarediadau esempt

Gall rhai enghreifftiau o waredu deunyddiau gael eu hystyried yn **esempt rhag Dreth Gwarediadau Tirlenwi** ac felly ni fyddant yn cael eu hadrodd i Awdurdod Cyllid Cymru. Nid ydym yn casglu data ar y gwarediadau esempt hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Dadansoddiad

## Cyfraddau treth sy'n berthnasol i Dablau 1a a 1b

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfraddau sy'n cyfateb i'r rhai yng ngweddill y DU ar gyfer 2018-19 i 2021-22.

| | Cyfradd safonol | Cyfradd is | Cyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi (ddim yn Nhablau 1a a 1b) |
|---|---|---|---|
| **2018-19** | £88.95 y dunnell | £2.80 y dunnell | £133.45 y dunnell |
| **2019-20** | £91.35 y dunnell | £2.90 y dunnell | £137.00 y dunnell |
| **2020-21** | £94.15 y dunnell | £3.00 y dunnell | £141.20 y dunnell |
| **2021-22** | £96.70 y dunnell | £3.10 y dunnell | £145.05 y dunnell |

## Tabl 1a: Pwysau o wastraff a waredwyd i safleoedd tirlenwi [1] [5]

## Pwysau a waredwyd ('000 tunnell) [2]

| | Rhyddhad neu ddisgownt [3] | Cyfradd is | Cyfradd safonol | Cyfanswm [4] |
|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | **142** | **427** | **392** | **962** |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | Rhyddhad neu ddisgownt [3] | Cyfradd is | Cyfradd safonol | Cyfanswm [4] |
|---|---|---|---|---|
| Ebr-Meh | 32 | 106 | 110 | **248** |
| Gor-Med | 23 | 139 | 116 | **277** |
| Hyd-Rhag | 31 | 95 | 80 | **206** |
| Ion-Maw | 56 | 87 | 87 | **230** |
| **2020-21 (p)** | **143** | **517** | **320** | **980** |
| Ebr-Meh (r) | 46 | 84 | 54 | **184** |
| Gor-Med (r) | 42 | 139 | 104 | **285** |
| Hyd-Rhag (r) | 31 | 164 | 90 | **285** |
| Ion-Maw (p) | 24 | 130 | 72 | **226** |

**Ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ôl cyfnod adrodd, cyfradd treth a mesur ar StatsCymru** (yn cynnwys data ar gyfer 2018-19, heb ei gyflwyno uchod)

## Nodiadau

[1] Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am warediadau heb awdurdod gan nad oes unrhyw ddata ar gael eto.

[2] Mae'r pwysau a gyflwynwyd wedi'u talgrynnu i'r 1,000 tunnell agosaf.

[3] Mae hyn yn cynnwys pwysau dŵr a dynnwyd o wastraff a waredwyd, ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfradd sero, a phwysau’r holl wastraff sy’n destun unrhyw ryddhad Treth Gwarediadau Tirlenwi.

[4] Mae’r cyfanswm a gyflwynwyd wedi’i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

[5] Nid yw'r tabl yn cynnwys nifer fach o ddiwygiadau i ffurflenni treth a dderbyniwyd gennym. Mae hyn oherwydd ein bod yn asesu'r risg o ddatgelu gwybodaeth am drethdalwr unigol.

(p) Mae'r gwerthoedd yn rhai dros dro a byddant yn cael eu diwygio mewn cyhoeddiad yn y dyfodol.

(r) Mae'r gwerthoedd wedi cael eu diwygio yn y cyhoeddiad hwn.

## Sylwadau ar Dabl 1a

Mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau coronafeirws (COVID-19) wedi’u cyflwyno ym mis Mawrth 2020, gan gynnwys ar weithgaredd yn y sector gwastraff. Cafodd cyfyngiadau ar y sector gwastraff eu codi’n raddol trwy gydol 2019-20, er bod rhai cyfyngiadau yn dal i fod mewn lle.

Arweiniodd y cyfyngiadau cychwynnol at gwymp o 26% mewn gwarediadau rhwng Ebrill a Mehefin 2020, o'i gymharu â'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Mae'r data ar gyfer Gorffennaf i Fedi 2020 yn dangos adferiad yn lefelau'r gwastraff a waredwyd, gyda'r lefel 3% yn uwch nag ym mis Gorffennaf i fis Medi 2019. Gwelwyd adferiad pellach yn Hydref i Ragfyr 2020, gyda lefel y gwastraff a waredwyd 38% yn uwch na'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Fodd bynnag, roedd pwysau'r gwastraff a waredwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2021 2% yn is na'r un cyfnod flwyddyn ynghynt. Mae'n debygol bod rhywfaint o waredu gwastraff, a fyddai wedi digwydd yn gynharach yn 2020-21 pe na bai unrhyw gyfyngiadau, wedi'i symud i ddigwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn benodol, roedd pwysau gwastraff cyfradd is a waredwyd rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2020 ac Ionawr i Fawrth 2021 yn sylweddol uwch na'r cyfnodau cyfatebol flwyddyn ynghynt, o 72% a 49% yn y drefn honno. Gall hyn fod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

oherwydd newid mewn ymddygiadau o ran gwaredu gwastraff, yn unol â bwriad y dreth.

Mae'r tîm gweithrediadau Treth Gwarediadau Tirlenwi’n cynnal trafodaethau rheolaidd â gweithredwyr safleoedd tirlenwi ynglŷn ag effeithiau coronafeirws (COVID-19) ar eu busnesau. Mae’r corononafeirws wedi cael effaith sylweddol ar fusnes rhai gweithredwyr safleoedd tirlenwi eleni. Er gwaethaf yr heriau a gyflwynodd COVID-19 i weithredwyr safleoedd tirlenwi, mae pawb a fanteisiodd ar gyfleoedd i dalu dros gyfnod hirach bellach wedi cwrdd â'u rhwymedigaethau’n llawn. Am fwy o fanylion, gweler y sylwebaeth o dan Dabl 2.

Yn Ebrill 2020 i Fawrth 2021, bu 980 mil tunnell o warediadau awdurdodedig. Mae hyn yn cynnydd o 2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Tabl 1b: Treth ddyledus ar wastraff a waredwyd i safleoedd tirlenwi [1] [5]

## Treth yn ddyledus (£ miliwn) [2]

| | Cyfradd is | Cyfradd safonol | Cyfanswm [3] | Swm y dreth a ryddhawyd [4] |
|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | **1.2** | **35.8** | **37.0** | **0.3** |
| Ebr-Meh | 0.3 | 10.0 | **10.3** | 0.1 |
| Gor-Med | 0.4 | 10.5 | **10.9** | ~ |
| Hyd-Rhag | 0.3 | 7.3 | **7.6** | 0.1 |
| Ion-Maw | 0.3 | 7.9 | **8.2** | 0.1 |
| **2020-21 (p)** | **1.5** | **30.1** | **31.7** | **0.3** |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | Cyfradd is | Cyfradd safonol | Cyfanswm [3] | Swm y dreth a ryddhawyd [4] |
|---|---|---|---|---|
| Ebr-Meh (r) | 0.3 | 5.1 | **5.4** | 0.1 |
| Gor-Med (r) | 0.4 | 9.8 | **10.2** | 0.1 |
| Hyd-Rhag (r) | 0.5 | 8.5 | **9.0** | 0.1 |
| Ion-Maw (p) | 0.4 | 6.8 | **7.2** | ~ |

**Ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ôl cyfnod adrodd, cyfradd treth a mesur ar StatsCymru** (yn cynnwys data ar gyfer 2018-19, heb ei gyflwyno uchod)

## Nodiadau

[1] Nid yw’r tabl hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am warediadau heb awdurdod gan nad oes unrhyw ddata ar gael eto.

[2] Mae’r gwerthoedd a gyflwynwyd wedi’u talgrynnu i’r £0.1 miliwn agosaf

[3] Mae’r cyfanswm a gyflwynwyd wedi’i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

[4] Dyma’r gostyngiad mewn treth o ganlyniad i'r ceisiadau am ryddhad. Nid yw'r swm yn cynnwys unrhyw elfen am ddisgownt dŵr, nad yw’n cael ei drethu.

[5] Nid yw'r tabl yn cynnwys nifer fach o ddiwygiadau i ffurflenni treth a dderbyniwyd gennym. Mae hyn oherwydd ein bod yn asesu'r risg o ddatgelu gwybodaeth am drethdalwr unigol.

(p) Mae'r gwerthoedd yn rhai dros dro a byddant yn cael eu diwygio mewn cyhoeddiad yn y dyfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(r) Mae'r gwerthoedd wedi cael eu diwygio yn y cyhoeddiad hwn.

## Sylwadau ar Tabl 1b

Fel yr amlygir yn y sylwebaeth o dan Dabl 1a, mae'r adferiad a ddechreuodd gyda gwastraff a waredwyd yn Ngorffennaf i Fedi 2020 wedi parhau am weddill y flwyddyn ariannol.

Arweiniodd y gwarediadau hyn ar gyfer Ionawr i Fawrth 2021 at £7.2 miliwn o dreth yn ddyledus, mae gostyngiad 12% ers yr un cyfnod yn 2020. Mae hwn yn newid mwy na'r lleihad o 2% a welwyd ym mhwysau gwarediadau rhwng y cyfnodau hyn. Mae hyn oherwydd bod gostyngiad ym mhwysau gwarediadau cyfradd safonol wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan newidiadau mewn gwarediadau gwastraff wedi'i ddisgowntio a'i ryddhau a gwarediadau ar gyfradd is y dreth.

Arweiniodd y gwarediadau hyn ar gyfer Ebrill 2020 i Fawrth 2021 at £31.7 miliwn o dreth yn ddyledus lleihad oddeutu 14% ers y flwyddyn flaenorol.

Efallai bod tystiolaeth o batrwm tymhorol yn y data, gyd dyddiau byrrach misoedd y gaeaf yn ffactor o bosib. Yn y dyfodol, efallai y byddwn yn gallu cadw'r effeithiau yma ar wahan i'r tueddiadau mwy cyffredinol yn y data. Ond byddwn angen gwerth sawl blwyddyn o ddata cyn i hynny fod yn bosibl, ac mae effaith coronafeirws (COVID-19) bellach yn gymhlethdod ychwanegol yn hyn o beth.

Ar gyfer Ionawr i Fawrth 2021, roedd y pum gweithredwr safle tirlenwi oedd yn talu'r swm mwyaf o dreth i gyfrif am 85% yr holl dreth a dalwyd. Mewn cyfnodau o dri mis cyn hyn, mae'r ffigur wedi amrywio rhwng 80-90%. Y ffigur cyfatebol ar gyfer y flwyddyn gyfan o Ebrill 2020 i Fawrth 2021 oedd 84%.

Mae'r gwerth ar gyfer swm y dreth a ryddhawyd yn cynrychioli faint o dreth fyddai wedi bod yn ddyledus pe nad fyddai'r rhyddhad wedi'i ganiatáu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Mae 17 o weithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn cwmpasu 21 safle

Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

## Derbyniadau o Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae Tabl 2 isod yn dangos derbyniadau chwarterol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae hyn yn seiliedig ar y dyddiad y cafwyd y taliad, a elwir yn 'ar sail arian parod' weithiau.

## Tabl 2: Treth Gwarediadau Tirlenwi a dalwyd i Awdurdod Cyllid Cymru [1]

| | Gwerth taliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (£ miliwn) |
|---|---|
| **2019-20** | **37.2** |
| Ebr-Meh | 9.2 |
| Gor-Med | 10.1 |
| Hyd-Rhag | 10.9 |
| Ion-Maw | 7.1 |
| **2020-21** | **33.9** |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am hawlfraint.

| | Gwerth taliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (£ miliwn) |
|---|---|
| Ebr-Meh | 2.5 |
| Gor-Med | 9.9 |
| Hyd-Rhag | 11.6 |
| Ion-Maw | 10.0 |

**Ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar dreth a dalwyd, ar StatsCymru** (yn cynnwys data ar gyfer 2018-19, heb ei gyflwyno uchod)

### Nodiadau

[1] Mae’r gwerthoedd a gyflwynwyd wedi’u talgrynnu i’r £0.1 miliwn agosaf.

## Sylwadau ar Tabl 2

Yn Ionawr i Fawrth 2021, cawsom £10.0 miliwn o daliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi. Mae hyn yn 41% yn uwch na'r un cyfnod yn 2020.

Mae'r tueddiadau yn y data yma ychydig yn arferol wahanol i'r data treth sy'n ddyledus. Mae hyn oherwydd bod yr union gyfnodau cyfrifyddu y cytunwyd arnynt gyda'r gweithredwyr Treth Gwarediadau Tirlenwi a'r dyddiadau talu sy'n deillio o hynny yn dylanwadu ar y tueddiadau yma. Gall hyn olygu bod taliadau’n disgyn mewn gwahanol chwarteri i'r gweithgareddau perthnasol. Fel rheol gyffredinol, mae ffigurau derbyniadau arian parod yn cyd-fynd yn fras â'r cyfanswm sy'n ddyledus ar gyfer y chwarter blaenorol.

Nid yw'r aliniad bras hwnnw wedi bod yn wir yn ystod y blwyddyn ariannol 2020-21 gan fod mae rhai gweithredwyr eisoes wedi cytuno ar **drefniadau Amser i Dalu** gydag Awdurdod Cyllid Cymru ble mae’r pandemig coronafirws

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

wedi effeithio ar eu ffrydiau refeniw. Cytunodd yr Awdurdod Cyllid Cymru gyda'r gweithredwyr hyn y gellir gwasgaru talu'r dreth sy'n ddyledus ar gyfer gwarediadau a wnaed rhwng Ionawr a Mawrth 2020 trwy gydol blwyddyn ariannol 2020-21. Mae'r rhan fwyaf o'r refeniw sydd ynghlwm â'r cytundebau hyn wedi'i dalu erbyn diwedd yr ail chwarter ariannol yn 2020-21, gyda'r holl refeniw wedi'i dalu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Ni wnaed unrhyw gytundebau o'r fath ar gyfer treth sy'n ddyledus ar warediadau yn hyd yn hyn yn y blwyddyn ariannol 2020-21.

Yn Ebrill 2020 i Fawrth 2021, cawsom £33.9 miliwn o daliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi. Mae hyn yn 9% yn llai na'r blwyddyn blaenorol.

## Dolenni i'r tudalennau gwybodaeth allweddol am ansawdd a rhestr termau

Mae'r **dudalen gwybodaeth allweddol** am ansawdd yn disgrifio sut mae eing hystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn bodloni'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ynghyd â dimensiynau gwerth, dibynadwyedd ac ansawdd.

Rydym yn diffinio termau perthnasol yn y **rhestr termau** fel y'u defnyddir yn y datganiad.

## Adborth a manylion cyswllt

Byddem yn ddiolchgar iawn o'ch adborth ar yr ystadegau hyn, er mwyn ein helpu i'w gwella. Cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

**Ystadegydd: Dave Jones**

**Rhif ffôn:** 03000 254 729
**E-bost:** data@acc.llyw.cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cyfryngau**

**Rhif ffôn:** 03000 254 770
**E-bost:** **newyddion@acc.llyw.cymru**

Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi: Ionawr i Mawrth 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi-ionawr-i-mawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.